

Y duw “Fi”

“... y mae eu gwlad yn llawn o eilunod; ymgrymant i waith eu dwylo, i’r hyn a wnaeth eu bysedd.” (adn. 8)

Beth am ddarllen Eseia 2:1–9 ac yna myfyrio

Yr ydym am feddwl eto heddiw am bwysigrwydd addoliad priodol. Pennaf waith dyn yw addoli Duw; nid oes dim yn fwy pwysig. Ynom o’r mewn mae yna awydd i addoli, ac os nad ydym am addoli Duw, yna mi fyddwn yn siŵr o addoli rhywbeth neu rywun arall, hyd yn oed, ni ein hunain. Rhaid i ddyn addoli. Mae pobl grefyddol yn dod o Sul i Sul i’r Eglwys gyda’r bwriad o addoli Duw. Ond mae yna ymdrech hefyd i gadw Duw y tu allan i’r hunan, heb roi iddo y lle priodol yn y galon. Mae gwir addoliad yn cael ei sylweddoli pan fo gwŷr a gwragedd yn cytuno fod Duw i eistedd, nid yn unig ar orsedd y bydysawd, ond hefyd ar orsedd eu calonnau.

Bu William Temple yn Archesgob Caergaint am gyfnod ac ysgrifennodd amryw o bethau am addoliad sydd, yn fy ngolwg, yn rhai o’r darnau mwyaf prydfferth ar y testun hwn. “Y mae addoliad yn golygu darostwng ein holl natur i Dduw. Mae’n golygu fod ein cydwybod yn cael ei bywhau gan ei sancteiddrwydd, y meddwl yn cael ei fwydo â’i wirionedd, ein dychymyg yn cael ei buro gan ei brydfferthwch, ein calon yn cael ei hagog gan ei gariad, ein hewyllys yn gorfod ildio gan ei bwrpas, ac mae’r cyfan i gyd yn cael ei grynhoi mewn mawl sydd yn adlewyrchu’r mwyaf y gall ein natur ni ei gyflawni.” Dyma yw y moddion pennaf i falchder hunanol, ffrwyth ein pechod gwreiddiol.

Os nad yw Duw ar orsedd ein calon, os nad yw’n ganolog i’n bodolaeth, yna mi fyddwn yn creu eilun o’n bywyd ein hunain. “Mae bod yn hunanganolog,” yn ôl William Law, “yn nodweddu gwraidd, canghennau a choeden pob drwg sydd yn perthyn i’r natur ddynol.” Ni allwn addoli Duw os y fi yw’r duw sydd ynghanol y galon.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 40:18–31; 44:6–24; 46:5–9; Dan. 3:1–4:37; Actau 12:21–23

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod dynoliaeth yn addoli eilunod?
2. Beth oedd achos cwmp Herod a Nebuchadnesar?

Gweddi

O Dad, rwy’n derbyn yn ddwfn o’r mewn, ac mae yna awydd i addoli. Caniatâ mai gwrthrych yr addoli yn wastad yw dy berson di. Rwy’n nesau yn awr i addoli. Cynorthwya fi i addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Yn enw Iesu. Amen.